# SL(6)349 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020") ddiwygiadau dros dro i Reoliadau 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws—

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod;

(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Darparodd rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 fod y diwygiadau hynny wedi peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021, ond roedd hynny yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed yn rheoliad 3 o Reoliadau 2020. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn)(Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau pellach 2020"). Diwygiwyd y dyddiad eto i 30 Medi 2022 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2005. Mae rheoliad 3(5)(a) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd A1 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005. Mae paragraff A1 yn caniatáu i awdurdodau derbyn benderfynu, o dan amgylchiadau penodol, a yw gwrandawiad apêl i'w gynnal yn bersonol, drwy fynediad o bell ("apêl o bell") neu'n rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy fynediad o bell ("apêl hybrid") (paragraff A1(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn). Os yw'r awdurdod derbyn yn penderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol (paragraffA1(3) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2005 ymhellach i ganiatáu i'r awdurdod derbyn benderfynu y caniateir i apêl gael ei phenderfynu ar sail gwybodaeth

ysgrifenedig o dan amgylchiadau penodol (paragraff A1(5) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae darpariaeth bellach mewn perthynas ag apelau derbyn wedi ei gwneud mewn cod o dan adran 84 o Ddeddf 1998.

## Gweithdrefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraffau (3) a (4) o reoliad 3 yn diwygio rheoliadau 3 a 5 o Reoliadau 2005 drwy fewnosod y geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" ar ddiwedd y rheoliadau priodol. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

> *Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.*

Os mai'r effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio, pam bod angen y diwygiadau uchod? Mae'r geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" eisoes yn ymddangos yn Rheoliadau 2005.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Ebrill 2023**